

ATTODIAD I GEMAU MAWL.

Tonau, Salmau, ac Ymdeithgan, wedi eu casglu a'u golygu gan

DAVID JENKINS,

MUS. BAC. (CANTAB.)

HEN NODIANT.

COPYRIGHT FOR ALL COUNTRIES

ABERYSTWYTH:
CYHOEDDEDIG GAN Y GOLYGYDD.

ANTHEMS.

1.	"MOLWCH YR ARGWLWYDD." (Praise Jehofah),	1d.	3d.
2.	"YN DDYFAL GWYLIAIS AM FY NUW." (I waited patiently for the Lord),	1d.	3d.
3.	"TI A FOLAF, O JEHOFAH." (I will magnify Thee, O Lord), ..	1d.	3d.
4.	"TI, O DDUW, YW FY NUW I." (Prize Anthem),	2d.	4d.
5.	"IESU FY MHRYNWR A'M DUW." (Saw ye my Saviour?),	1d.	4d.
6.	"I'N HEGLWYS HOFFUSAF." (Funeral Anthem),	2d.	4d.
7.	"YSTYR Y PERFFAITH." (Mark the Perfect Man),	1d.	4d.
8.	ANTHEM GENHADOL. (Missionary Anthem),	2d.	4d.
9.	ANTHEM Y CYNHAUAF. (Harvest Anthem),	2d.	4d.
10.	ANTHEM YR YSGOL SABBOTHOL. (Sunday School Anthem), ..	2d.	4d.
11.	REQUIEM, DR. EDWADRS, BALA,	2d.	4d.
12.	FY ENAID BENDITHIA'R ARGWLWYDD. (Praise ye the Lord, O my Soul),	2d.	4d.
13.	BYW YW YR ARGWLWYDD. (Praise ye the Lord.) D. Emlyn Evans,	2d.	4d.
14.	GWRANDO FY NGEIRIAU, ARGWLWYDD. (Hear my Prayer, O Lord.) J. T. Rees,	2d.	4d.
15.	CANYS FELLY CARODD DUW Y BYD. (For God so loved the World.) W. Davies,	1d.	4d.
16.	CORON CYFFAWNDER. (The Crown of Righteousness.) Er cof am Thos. Gee,	2d.	4d.
17.	DYDDIAU DYN. D. Emlyn Evans,	2d.	3d.
18.	CYFRAITH GWIRIONEDD. (The Law of Righteousness.) Requiem er cof am T. E. Ellis, A.S.,	2d.	4d.
19.	ANTHEM Y PASG. (Easter Anthem). D. Protheroe, Mus. D c.,	1d.	3d.
20.	DRYLLIWDY Y DELYN. (The Broken Harp.) Er cof am Dr. Joseph Parry,	2d.	6d.
21.	TI, ARGWLWYDD, FUOST YN BRESWYLF A I NI. (Lord, Thou hast been our dwelling place.) J. G. Thomas,	1d.	3d.

EASY ANTHEMS.

1.	TE DEUM,	1d.	2d.
2.	GLORIA	1d.	2d.
3.	SANCTUS } together in one copy,	1d.	2d.
4.	TO BE JOYFUL IN THE LORD. (Byddwch lawen yn yr Ior), ..	1d.	2d.
5.	O JERUSALEM. (O Jerusalem),	1d.	2d.
6.	BLESSED IS THE MAN. (Gwyn fyd y Gwr),	1d.	2d.
7.	CHRISTMAS CAROL. (Carol Nadolg),	1d.	2d.
8.	CHRISTMAS ANTHEM. (Anthem Nadolg.) R. S. Hughes, ..	1d.	2d.
9.	CHRISTMAS CAROL. (Plygeingan Nadolg.) D. Jenkins, ..	1d.	2d.
10.	REQUIEM I BLANT. William Davies,	1d.	2d.
11.	ARGWLWYDD YMWEL. R. S. Hughes,	1d.	2d.
12.	AI GWIR YW? R. Mills,	1d.	2d.
13.	DEUWCH ATTAFF FL. (Come unto Me.) Isalaw,	1d.	2d.
14.	YR ADGYFODIAD. (Anthem y Pasg.) Mrs. Watts Hughes, ..	1d.	2d.
15.	SEINIWYD MAWL GAN ENGYL GLAN. (Songs of Praise the Angels Sing.) Isalaw. Y ddwy ar yr un copi. Y ddwy a'r wahan f'n yr H. N. 2d. yr. un,	1d.	2d.
16.	GORPHWYSFA'R SAINT. (The Pious Dead.) Anthem syml er cof am y diweddar Dr. Saunders, Abertawe. D. Jenkins, ..	1d.	4d.
17.	GOLLYNGDOD. J. T. Rees,	1d.	4d.
18.	MAWL A'TH ERYD DI YN SEION. (Praise awaiteth thee in Zion.) Harvest Anthem. Isalaw,	1d.	2d.
19.	DRYCHAFAF DI, FY NUW. (I will extol Thee.) E. P. Mills, ..	1d.	2d.
20.	ARGWLWYDD GAD IM DAWEL ORPHWYS. W. Jno. Williams. Sol-fa,	1d.	2d.
21.	YMDEITHGAN AWN YMLAEN (Forward, Brothers),	1d.	2d.

NOTE.—Nos. 2, 3, 5, 8, 9, 10, 11, 13, 14, 15, 17, 18, 19 and 20 are within easy compass for children. All the above may be had with English and Welsh words.



ATTODIAD

I

GEMAU MAWL.

Supplément, avec nos mains dans tes mains.

Tonau, Salmau, ac Ymdeithgan, wedi eu casglu a'u golygu gan

DAVID JENKINS,

MUS. BAC. (CANTAB.)

Mélodies, Psaumes et Hymnes, recueillis et édités par David Jenkins.

HEN NODIANT.

recueil de chants religieux en gallois, publié au XIXe siècle


COPYRIGHT FOR ALL COUNTRIES.

ABERYSTWYTH :
CYHOEDDEDIG GAN Y GOLYGYDD.



Église catholique
en Finistère

Document numérisé en 2025



MAE yr oll o'r tonau yn y casgliad bychan hwn wedi eu profi, trwy gael eu canu mewn gwahanol Gymanfaoedd cerddorol, a chyhoeddir hwynt ar gais amryw ddosbarthiadau yn y ddau Nodiant.

PRIS, 8c. H.N. 6c. SOLFFA.

Telerau arbenig ar gyfer Cymanfaoedd a dosbarthiadau, os erchir dros haner cant o gopiau.

Castell Brychan, Aberystwyth,
Dydd Calan, 1910.

CYNNWYSIAD.

CYNNWYSIAD.

Rhif.	Enw.	Mesur.	Rhif.	Enw.	Mesur.
26	ABERPORTH	8.7.D.	8	IDA	7.7.7.7.7.
2	BÔD ALWYN	M.B.	1	LLANGFNI	6.4.6.4.6.6.4.
21	BÔD IEUAN	8.7.D.	9	MENNA	7.7.7.7.7.
25	BRYNFFIN	8.7.D.	6	MYFANWY	7.6.D.
24	BRYN OFFA	8.7.D.	31	NEVERN	11.10.11.10.10.10.
30	BRYNTIRION	9.7.9.7.9.9.	29	OGMORE	8.8.8.8.D.
20	CAERGYBI	8.7.4.	12	PALESTRINA	M.S.
10	CAPEL SEION	8.4.	5	PENDYFFRYN	7.6.D.
22	CASTELL BRYCHAN	8.7.D.	7	PENLAN	7.6.D.
14	CEFNYSBEDD	M.C.	3	PLAS CASTELL	6.6.8.4.D.
11	CWMANOG	M.S.	15	PROFIAD	M.C.D.
27	CWYNFAN PRYDAIN	8.7.D.	13	SOPHIA	M.C.
28	DÔL ADAR	8.8.8.6.D.	23	TRANSVAAL	8.7.D.
18	DÔL AWEL	8.7.4.	4	TREHINON	6.6.8.6.8.8.8.6.
19	GNOLL AVENUE	8.7.4.			
16	GOGONEDDIAD	M.C.D.			
17	HEPHZIBAH	8.7.4.			

PSALMAU.

32 GWYN EU BYD Y TLODION.

33 MI A GODAF, AC A AF AT FY NHAD.

YMDEITHGAN.

34 AWN YMLAEN (Forward, Brothers.)

Llangefni.

1

DAVID EVANS. Dec. 6th 1909.



Duw, cariad yw.

mp O fewn yr anial dir
 Yr wyf o hyd;
 Yn dysgwyl goleu elir
 O'r nefol fyd;
 O ddyfnder llawer ffos,
 Yn eiddil ac yn ywyl,
mf Mi ganaf yn y nos
f "Duw, cariad yw."

mp Er profi'n helaeth iawn
 O'i gariad eu;
 Fy nghalon sydd yn llawn
 Gelyniaeth ddu;
mf Ond tra fo gras yn stor,
 Ac imi Brynwr byw,
 Mi guraf wrth ei ddôr
f "Duw, cariad yw."

mf Af heibio bryn y groes
 At geidwad dyn;
 Fy mywyd imi roes,
 O'i ras ei hun;
mp Er sarnu dan fy nhraed
 Gynghorion pura'i rhyw
mf Mae cymod yn y gwaed
f "Duw, cariad yw."

mf Mae llais efengyl fwyn
 O fewn y wlad;
 I'r euog mae yn dwyn
 Maddeuant rhad;
 Tra fyddo'r hyfryd lef
 Yn tori ar fy nghlyw,
f Mae gobaith am y nef,
 "Duw, cariad yw."

Dyfed.

Bôd Alwyn.

2

Caner yn dyner.

D. JENKINS.



EMYN 149 (457).

p Tosturi dwyfol fawr
At lweh y llawr sy'n bôd,
Pan gymmerth Duw achubiaeth dyn,
A'i glymu'n un a'i glôd.

p Pan ddaeth y Mab o'i fodd
I farw yn ein lle,

cres. Agorodd ffordd i'n dwyn at Dduw;
Ein Ceidwad yw Efe.

f Mae Iesu'n fawr Ei fri,
A'i glôd yn llenw'r nef;
A holl hyfrydweh pur y plant
Yw Ei ogoniant Ef.

EMYN 374 (462).

p Ai am fy meiau i
Dioddefodd Iesu mawr,
cres. Pan ddaeth yn ngrym ei gariad ef
O, entrych nef i lawr!

mp Cyflawnai'r gyfraith bur,
Cyfiawnder gafodd iawn;
cres. A'r ddyled fawr, er cymaint oedd,
A dalodd Ef yn llawn.

p Dioddefodd angau loes,
Yn ufudd ar y bryn;
cres. A'i waed a ylech yr Ethiop du
Yn lân fel eira gwyn.

p Bu'n angau i'n angau ni
Wrth farw ar y pren;
mf A thrwy ei waed y dygir llu,
Trwy angau, i'r nefoedd wen.

p Pan grymmodd Iesu ei ben,
Wrth farw yn ein lle;
mf Agorodd ffordd, pan rwygai'r llên,
I bur drigfanau'r ne'.

f Gorehfygodd uffern ddu
Gwnaeth ben y sarph yn friw;
O'r carchar caeth y dygir llu,
Trwy ras, i deulu Duw.

Plâs Castell.

3

D. JENKINS.

EMYN 48 (53I).

mf Ti, Arglwydd, yw fy rhan,
 A'm trysor mawr di-drai,
 A noddfa gadarn f'enaïd gwan
 Yn mhob rhyw wae;
cres. Ac atat r'wyf am ffoi.
 Dy fynwes yw fy nyth,
 Pan f'o gelynion yn crynhoi,
 Rifedi'r gwllith.

mf O! dangos d'allu mawr,
 Dy faith anfeidrol ras,
 A dywed wrthyf fi yn awr
 Caf gario'r maes;
cres. Ac atat rwyf yn ffoi,
 Dy fynwes yw fy nyth,
 Pan f'o gelynion yn crynhoi
 Rifedi'r gwllith.

mf Tydi, fy Nuw Ei Hun
 Anfeidrol berffaith Fôd,
 Sy'n trefnu daear, da, a dyn
 I'rh ddwyfol glod;
cres. Cyf'rwydda f'enaïd gwan
 Trwy'r anial yn y blaen,
 Ac arwain fi'n mhob dyrys fan,
 A'th golofn dân.

mf Dy Ysbryd sanctaidd, cûn,
 Dywysodd fyrdd o saint
 Rho imi brofi Ei felus rin,
 Anfeidrol fraint;
cres. Fel dyfroedd gloyw, elir,
 I loni'r llesg a'r gwan
 Diddanweh yn yr anial dir
 I'm dâl i'r lân.

Trehinon.

4

D.JENKINS, 6th July, 1909.



EMYN 722 (567).

mf Dy gymmorth, Arglwydd! dôd,
 I rodio er dy glôd,
 A byw trwy ffydd o ddydd i ddydd,
 Gan estyn at y nôd:
 Cael treulio'f oes i Grist a'i groes,
 Er pob rhyw loes a chlwy';
cres. A byw heb wad i ro'i mawrhâd
 I gariad rhad fy Iesu mât,
 Fydd fy nymuniad mwy!

mp Yr Arglwydd ar fy nhaith,
 A'm daliodd lawer gwaith,
 Yn nyfnder loes, dân faich a chroes,
 A gorthrymderau maith:
 Yn un heb nerth, ar greigiau serth,
mf Ce's fyw trwy werth y gwaed;
 A'r grâs a fu yn rhâd o'm tu,
f Mae eto'n gry' i fwrw llyu
 O elynion dân fy nhraed!

EMYN 818 (568).

mp O Dduw! rho im' Dy hedd,
 A golwg ar Dy wedd,
 A maddeu'n awr fy meiau mawr,
 Cyn 'relwy' i lawr i'r bedd:
mf Ond im' gael hyn, nid ofna'r glyn,
 Na cholyn angeu'n hwy;
f Dôf yn dy law i'r ochr draw,
 Heb friw na braw, rhyw ddydd a ddaw,
 Uwch law pob loes a chlwy'!

Pendyffryn.

5

D. JENKINS.

EMYN 273 (438).

mf Tyr'd, Ysbryd Glân saneteiddiol!
 Anadla'th nefol ddawn:
 Gwna heddyw gynnwrf grasol
 Mewn esgryn sychion iawn:
f Rho'th nerthoedd i gydfyned
 A geiriau pur y nef:
 Dy air yn nerthol rheded,
 Mewn goruchafiath gref.

mf O! Ysbryd saneteiddiolaf!
 Anadla arna'i lawr,
 O'r cariad anchwiliadwy
 Sy 'nghalon Iesu mawr!
f Trwy haeddiant Oen Calfaria,
 Ac yn Ei glwyfau rhâd,
 'R wy'n disgwyl pob ryw ronyn
 O burdeb gan fy Nhad.

Myfanwy.

6

JOSEF E. JONES, Conwy, 12th Dec. 1908.



EMYN 474 (427).

mp A raid i minnau drengu
 O eisie'r dyfroedd pur!
 'Rwy'bron llewygu'n tramwy
 Y dyrys anial dir!
cres. Dwg fi i'r dyfroedd tawel,
 A'r porfeydd gleision mawr,
p Lle mae y rhai lluddedig
 Yn rhoi eu penau i lawr.

EMYN 414 (443).

mf O! Arglwydd galw eto
 Fyrddynau ar dy ôl,
 A dryllia'r holl gadwynau
 Sy'n dal eneidiau'n ôl;
cres. A galw hwynt o'r dwyrain,
 Gorllewin, gogledd, de,
 I'th eglwys yn ddi-attal,
 Mae digon eto o le.

EMYN 147 (446).

mf Un waith am byth oedd ddigon
 I wisgo'r goron ddrain;
 Un waith am byth oedd ddigon
p I ddiodde'r bicell fain;
cres. Un aberth mawr gwirfoddol
 A ddofodd ddwyfol lid;
 Un Iesu croeshoeliedig
 Sy'n feddyg trwy yr holl fyd.

Penlan.

7

D. JENKINS.

EMYN 146 (419).

mf Pa le, pa fodd dechreuaf,
 Foliannu'r Iesu mawr?
 Olrheinio'i râr ni fedraf;
 Mae'n llenwi nef a llawr:
f Anfeidrol ydyw'r Ceidwad,
 A'i holl drysorau'n llawn;
 Diderfyn yw Ei gariad,
 Difesur yw Ei ddawn.

mf Trugaredd a gwirionedd
 Yn Nghrist sy'n awr yn un,
 Cyfiawnder a thangnefedd
 Ynghyd am gadw dyn:

Am Grist a'i ddioddefiadau—
 Rhinweddau marwol glwy;
f Y seinir pêr ganiadau
 I dragwyddoldeb mwy.

cres. O! dioleh am Gyfryngwr—
 Gwaredwr cryf i'r gwàn;
 O! am gael ei adnabod—
 Fy Mhriod a fy Rhan;
 Fy ngwisgo â'i gyfiawnder
 Yn hardd ger bron y Tad;
 A derbyn o'i gyflawnder
 Wrth deithio'r anial wlad.

Ida.

DAVID EVANS.



EMYN 234 (856).

mf Graig yr oesoedd, cuddia fi,
 Er fy mwyn yr holltwyd Di,
 Boed i rîn y dŵr a'r gwaed,
mp O Dy ystlys friw a gaed,
mf Fy nglanhau o farwol rym,
 Ac euogrwydd, pechod llym.

mp Dof yn waglaw at Dy groes,
 Glynaf wrthi trwy fy oes;
 Noeth, am wisg dôf attat Ti;
 Llesg, am râs dyrchafaf gri;
 Brwnt, i'r ffynon dôf a'm elwyf;
cres. Goleh fi Geidwad, marw'r wyf.

mp Nid fy holl weithredoedd i
 All gyflawni'th gyfraith Di;
 Pe bai'm sêl yn dân di-lŷth
 A phe llifai'm dagrau byth,
cres. Iawn ni wnai yr elli yn un, —
f Ti raid achub, Ti Dy Hun.

p Tra'n anadlu'm heinioes frau,
 Pan bo'm llygaid llesg yn cau,
cres. Pan b'wy'n hedfan uwch y llawr,
 Pan yn ngwydd Dy orsedd fawr, —
f Graig yr oesoedd! gâd i mi
 Lwyr ymguddio ynot Ti.

cyf. Alavon.

Menna.

9

D. LLOYD EVANS.



EMYN 232 (850).

mf Daew gariad nefoedd wen
 Yn disgleirio ar y pren;
f Daew daledigaeth lawn
 I ofynion trymion iawn:
p Iesu gollodd ddwyrol waed,
f Minnau gafodd wir iachâd.

mf Wle'r llwybr heddyw'n glir
 Tua Chanaan hyfryd dir;
f Y mae'r faner fawr yn mlaen,
 F'holl elynion cwymbo wnan';
mp Rhed yr oriau'u rhif i maes,
 Caf fyn'd trwy'r Iorddonen lân.

f Wle'r Ganaan hyfryd wiw,
 Dyma'r ardal câf fi fyw,
 Gwlad heb ofid, gwlad heb wae,
 Gwleddoedd hyfryd i barhau:
p Dwyfol gariad, dwyfol hedd,
mf Gaf fwynhau tu draw i'r bedd.

mp Na ddoed gwael wrthrychau'r byd
 I gartrefu yn fy mryd;
mf Digon, f'enaïd, digon yw
 Myfyrdodau dwyfol friw;
f Mae mwy pleser yn Dy glwy'
 Na'u llawenydd penaf hwy.

p Iesu gollodd ddwyfol waed,
mf Minnau gafodd wir iachâd;
 Darfu ymfrost mawr y byd,
f Iesu biau'r elod i gyd;
mp Wrth Ei draed dymunwn fyw,
mf Holl hapusrwydd f'enaïd yw.

Capel Seion.

10

DAVID EVANS. Meh. 1893.



f Ceir diangfa rhag marwolaeth
 Trwy waed yr Oen;
f Nid oes ffordd o waredigaeth
 Ond gwaed yr Oen!
 Gwelir miloedd wedi eu golchi
 Draw yn glanio tir goleuni,
 Heb frycheuyn chwaith na chrychni,
 Trwy waed yr Oen!

f Fe agorwyd ffordd gyfreithlon
 Trwy waed yr Oen,
f I ryddhau treseddwy'r caethion
 Trwy waed yr Oen;

Haleliwia, byth heb dewi
 Bydd y gân yn ngwlad goleuni,
 Gan y dyrfa ddirifedi,
 Am waed yr Oen.

f Wedi cael eu gynau'n wynion
 Trwy waed yr Oen;
 Cael yr hedd, a'r wledd, a'r goron
 Trwy waed yr Oen!
 Peraidd bynciant Haleliwia
 Am yr iawn 'roed ar Galfaria;
 Cofiant byth am eu diangfa
 Trwy waed yr Oen.

Cwmanog.

11

Caner yn dyner.

D. JENKINS. Mai 23. 1909.



EMYN 537 (239).

mp Yn mynwes glŷd yr anwyl Oen,
 Heb friw na phoen, 'rwy'n llechu;
 Ac oddi fewn Ei glwyfau eu
 Mae fenaïd i'n cartrefu.

Nid llygad wêl, na chlust a glyw,
 Nac un dyn byw ddechymyg,
p Y tawel hedd rydd Duw bob dydd
 I'r rhai sydd ddewisedig.

Er bod yn hir mewn anial fân,
 Yn 'mofyn am orphwysfa,
mf O'r diwedd de's—O! ryfedd fraint!
 I'r mân mae'r saint yn gwledda.

Wrth linyr rhâd fe ddaeth i'm rhan
 Y lle a'r mân hyfryta',
 Mewn brasder bro 'mhlith brodyr lu
f Sy'n canu Aleluwia.

Mi wn, pe cawn dafodau hy'
 Angylion fry sy'n canu,
 Mi ro'wn y rhai'n i gyd o'r bron
 I gannol graslon Iesu.

Mi wn y dŵg fi i deyrnas ne',
 Ar ben fy mhererindod;
 Ac yno byth mewn tawel fân,
 Câf eistedd tân Ei gysgod.

mp Câf fwyta ffrwythau prenauplan
 Ar hyd glân afon bywyd,
 Tragwyddol Sabbath gyda'r Oen,
 Heb friw, na phoen, na gofid.

Palestrina.

12

Trefnwyd allan o "Palestrina" gan D.J.



EMYN 680 (271).

mp Duw, cadw f'enaïd bach o hyd
 Uwch law y byd a'i ddrygau,
 Gan lwyr ddibrisio'i boen a'i wae,
 Ei drallod a'i gystuddiau.

cres. Fel na b'wy'n gwrando ar ei dwrf,
 Ei gynnwrf a'i ruadau;
 Gan deithio'r llwybr cul bob cam,
 A meddwl am fy nghartre';

mf Heb gyfeiliorni ar un llaw
 Nes myn'd tu draw'r Iorddonen,
 At seintiau flinodd ar y byd,
 Syn awr i gyd yn llawen;

Yn gorphwys yn y Ganaan bur,
 Preswylfa'r gwir dduwiolion,
 Tir yr addewid hyfryd draw,
 Gwlad lle nas daw gelynion.

mp Gorphwysfa dawel, deg, ddi-stŵr,
 Sydd yno i'r gŵr lluddedig;
cres. Afonydd gloyw, pur, di-drai,
 I ddiodi'r rhai sychedig.

Sophia.

13

PARCH. J. JONES. Talsarn.

Trefnwyd yr alaw a'r gynghanedd gan D. J.



EMYN 687 (340).

mp Pererin wyf mewn anial dir,

Yn crwydro yma a thraw;

cres. Ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr

Fod ty fy Nhag ger llaw.

mf Tyr'd, Ysbryd sanctaidd ledia 'r ffordd,

Bydd i mi'n niwl a thân:

Ni cherddai'n gywir hanner cam

Oni byddi o fy mlaen.

mp Ac mi dybygaf clywaf sŵn

Nefolaidd rai o'm blaen,

mf Wedi gorchfygu a myn'd trwy

Dymmhestloedd dŵr a thân.

mp Mi wyraf weithiau ar y dde,

Ac ar yr aswy law;

mf Am hyny, arwain, gam a cham,

Fi i'r Baradwys draw.

mf Mae hiraeth arnaf am y wlad

Lle mae torfeydd diri',

f Yn canu'r anthem ddyddiau'u hoes

Am angen Calfari.

Cefnybedd.

14

D. EMLYN EVANS.



EMYN 270 (354).

mp O! tyred, Ysbryd sanctaidd, pur,
 Nertha'm blinedig draed;
cres. A rho i mi olwg oleu, glir,
 Ar hyfryd dir fy ngwlad.

mp Gâd imi ado'r anial maith,
 Gwlad galar, a gwlad gwae;
cres. A myned rhagof tua 'r tir
 Sy â'i bleser yn parhau.

p 'R wyf fel y gwyliwr ar y mur
 Yn dysgwyl, bob yr awr,
mp Am wel'd yn gwawrio Jubil fwyn
mf Fy muddugoliaeth fawr.

mf Pleserau'r ddaear wedi ffoi,
 Pob chwantau i gyd yn un,
 Heb un difyrwech is y rhôd
 Ond Iesu mawr Ei Hün.

f A meddwl am gwmpeini'r nef,
 A meddwl am y gwaith
 Fydd genyf yno'n treulio i maes
 Holl dragwyddoldeb maith.

Yn mhlith cwmpeini rif y sêr,
 Llawn ddisglaer uwch y nen,
 Yn cymmysg cariad ato Ef
p Fu farw ar y pren.

Profiad.

15

GUTYN ARFON.



EMYN 358 (556).

p Galaru 'rwyf mewn dyffryn du,
 Wrth deithio'i dŷ fy Nhad;
mf Ar ben y bryniau'n llawenhau
 Wrth weled cyrau'r wlad:
 'Rwy'n ddu fy lliw, a'm gwisg yn wên,
 'Rwy'n llawen ac yn brudd;
 'Rwy'n agos iawn, ac eto mhell;
 'Rwy'n waeth, 'rwy'n well, bob dydd.

In grief and sadness, through a dark
 And dreary vale I roam;
 Rejoicing on the heights to see
 My Father's glorious home:
 Defil'd, and clad in raiment white,
 Joyful and sad I sway;
 I am so near, and yet so far;
 Worse, better, every day.

Trans. G. H. Arfon.

Gogoneddiad.

16

Gweddol gyflym a mawreddog.

D. JENKINS.

EMYN 471 (357).

f Fe welir Seion fel y wawr,
 Er saled yw ei gwedd,
 Yn dod i'r lân o'r cystudd mawr,
 N'ol agor pyrth y bedd;
 Heb glâf na chlwyfus yn eu plith,
 Yn ddisglauer fel yr haul,
 Yn y cyfiawnder Dwyfol byth,
 A wnaed gan Adda'r ail.

Hephzibah.

17

Curer dau guriad yn y bân.

D. JENKINS. Rhag. 24. 1909.

* Er cof am fy anwyl gyfaill W.W. Owen Ysw, Y.H. Rhosbeirio.

EMYN 640 (831).

mp Tyred, Arglwydd, a'r amseroedd
 Mae fy enaid am fwynhau—
 Pur dangnefedd heb dymhestloedd,
 Cariad hyfryd a di-drai:
cres. Gwledd o hedd tu yma i'r bedd,
 Nid oes ond dy blant a'i medd.

mf Rho i mi arwydd cryf, disigl,
 Heb amheuaeth ynddo ddim,
 Gan nad beth f'o arnaf eisieu,
 Dy fod di yn briod im':
f Gweld fy rhan, ddeil i'r làn,
 Yn mhob brwydr f'enaid gwan.


mf Nid all dim or storom danbaid,
 Nid all dim o'r gwyntoedd cry',
 Guro i lawr yr enaid egwan
 Welo'i drysor ynot Ti:
 Teimlo'th hedd, gweld Dy wedd,
f Gonera angeu tu yma'r bedd.

f Af ar hyd fy ffordd yn ddiddig,
 Af ar hyd fy ffordd yn hy',
 Teithia'r anial mewn gorfoledd
 O hyd golwg atat Ti:
 D'eiriau Di, melus eu,
 Sydd yn ddigon byth i mi.

Dôl Awel.

18

EVAN JONES, Bl. Festiniog.



mp Rho dy gwmni, Addfwyn Ysbryd,
 Trwy anialweh maith y byd
 Rho dy wenaau ar ein bywyd,
 Nes ei wneud yn wyn i gyd:
mf Yn dy gwmni,
 Ni ddiffygiodd neb eriod.

mf Yn yr heulwen rho dy gwmni,
 Yn y ddryehin bydd gerllaw,
 Tywyll ydyw pob goleuni —
 Pan y byddi'n cilio draw.
 Bydd yn agos,
 Bydd yn nes na phawb i ni.

p Rho dy gwmni pan fo pryder,
 Ar ei aden ddu'n neshau,
 Rho dy gwmni pan fo amser,
 Oddiwrthym yn pellhau,
mf Yn y nefoedd,
 Gwyddom cawn dy gwmni byth.

Bryfdir.

Gnoll Avenue.

19

Er cof am fy anwyl nith, Esther.

D. JENKINS.

EMYN 797 (749).

mf N'ad i'r gwyntoedd cryf, dychrynlyd,
 Gwyntoedd oer y gogledd draw,
 Ddwyn i'm hysbryd gwan trafferthus,
 Ofnau am rhyw ddrygau ddaw;
cres. Tro'r awelon
 Oera'u rhyw yn nefol hin.

mp Grym fy nwydau sy'n fy mhoeni,
 Grym f'euogrwydd a fy mai;
 Methu eilwaith peidio pechu,
 Eilwaith methu edifarhau:
cres. I'm gwaredu,
 O! na welwn foreu wawr.

mf Gwna i mi wel'd y byd a'i stormydd
 Yn diflanu cyn b'o hir;
 Doed i'r golwg dros y bryniau
 Ran o'r nefol hyfryd dir;
 Im' gael llonydd
 Gan holl derfysgiadau'r llawr.

mp Disgwyl 'r wyf trwy hyd yr hirnôs,
 Disgwyl am y boreu ddydd;
 Disgwyl clywed pyrth yn agor,
 A chadwynau'n myn'd yn rhydd:
cres. Disgwyl goleu
 Pur yn nh'w'llwch tewa'r nos.

mf Daw, fe ddaw y wawr wen oleu,
 Nes bo'r cwmwl du yn ffoi.
cres. TARTH a niwl yn eyd-ddiflanu
 Ag oedd wedi cyd-grynhoi:
f Dyma'r oriau
 'R wy'n eu gweld draw trwy ffydd.

Caergybi.

20

DAVID EVANS. Dec. 6th 1909.

The musical score is written for piano in G major (one sharp) and 2/4 time. It consists of four systems of music, each with a treble and bass staff. The melody is primarily in the treble staff, often using chords and moving in a stepwise fashion. The bass staff provides harmonic support with chords and occasional moving lines. The piece concludes with a double bar line in the fourth system.

mf O! gyfoethog Dduw Rhagluniaeth,
O! drugarog Geidwad dyn;
Y mae hanfod pob bodolaeth
Wrth dy enw byth yn nglyn',
Ti dy hunan
All ddigoni gwaith dy law.

Ti sydd yn coroni'r flwyddyn,
Mae ei golud yn dy law;
Ac mae bywyd pob eginyn
Yn dy weled oddi draw;
Llaw'n o wynfyd
Yw dy lwybrau di, fy Nuw.

Pob creadur am ddyddanweh
Atat Ti gyfeiria'i lef;
O breswylwyr yr anialwch
Hyd yr angel yn y nef;
Ni fu prinder
Ar dy lwybrau di erioed.

f Mae cyflawnder dy ddaioni
Yn addurno'r brynau pell;
Nefol addurn yn cysgodi
Mawr gynhauaf gwlad sydd well;
Mae dy lwybrau
Yn ymgolli yn y nef.

Dyfed.

Bôd Ieuan.

21

J. T. REES.



EMYN 821 (692).

mp Cofia, f'enaidd, cyn it dreulio
 D'oriau gwerthfawr yn y byd,
 Cyn ehedeg ffwrdd oddi yma,
 P'un a ge'st ti'r trysor drud;
 Yn mha ardal bydd fy lletty?
 Fath pryd hyny fydd fy ngwedd?
 P'un ai llawen, ai cystuddiol,
 Fyddaf y tu draw i'r bedd?

p Pan bo'r llygaid yma'n t'wyllu,
 Yn eu pyllau'n llechu i lawr,
 Troi oddi amgylch wrth ymdrech
 A galluoedd anghau mawr;
 P'odd dioddefaf y fath gystudd?
 Pwy adferaf golled hyn?

mf Oni chaf ymguddio yn nghlwyfau
 'R Oen fu ar Galfaria fryn?

mf Iesu hawddgar! 'rwy'n dy ddewis;
 Nerth i ddilyn ôl dy droed,
 Yna caiff fy enaid hedeg
 I'r hapusrwydd uwch y rhôd;
 Tra f'om pridd yn ymgymmysgu
 Gyda phridd y ddaer ryw bryd,
f Llewyrch wyneb Duw ddisgleiria
 Ranau f'enaidd oll i gyd.

mf Wedi'm golchi oddi wrth sorod
 Pechod ffaidd, drwg ei ryw,
 Fel drych goleu i dderbyn delw
 Holl sancteiddrwydd pur fy Nuw;
f Ni raid teithio'r ddaear mwyach,
 Yn mhlith pryfed mân y llawr;
 Ond disgleirio 'mhlith myrddynau
 Gylch yr orsedd fel y wawr.

Castell Brychan.

22

D. JENKINS, July 1908.



EMYN 603 (716).

mp Iesu, dyro Dy gymdeithas
 Nefol yn yr anial fyd,
 Lle mae maglau ar ôl maglau
 Yn fy n'rysu 'mron o hyd;
 Y mae hiraeth yn fy nghalon
 Ac och'neidiau heb ddim trai,
cres. Am wel'd oriau ngwaredigaeth
 Ddedwydd, hyfryd, yn nesau.

mf Ti faddeuaist fil o feiau —
 Beiau cynddeirioca'u rhyw,
 Ac a guddiaist rhag y werin
 Rai fel porphor coch eu lliw:
 Cliria fy nghydwybod euog,
 Cànâ f'enaïd yn y gwaed,
f A rho'r bai ag sy'n fy maeddu,
 A fy nryllio, dan fy nhraed.

mf O! na ildia, f'enaïd, ronyn,
 Er ei bod yn fyr brydnawn,
 Y mae trugareddau'r nefoedd
 Fel y moroedd mawrion llawn;
 F'allai try deheuwynt tawel,
 Cyn machludo'm haul yn lân,
 Ac yn lle rhyw drwm och'neidio,
f Caf fi seinio'r hyfryd gân.

Transvaal.

23

J. T. REES.

The musical score is written for piano. It features four systems of music, each with a treble and bass staff. The key signature is one sharp (F#), and the time signature is 2/4. The first three systems conclude with a repeat sign (∞). The fourth system is marked 'rall.' and concludes with a final chord. The notation includes various chords and melodic lines in both hands.

mp Tyred, Ysbryd gras a bywyd,
 I fywhau'r gwywedig dir;
 Ar ororau cysgod angau,
cres. Cyfod, Haul Cyfiawnder elir;
mf Llawn tywyllwech yw'r anialweh,
 A marwolaeth wrtho'n nglyn;
 Marwn' wyneb tragwyddoldeb,
 Heb adnabod ceidwad dyn.

mp Y mae llygredd ac anwiredd
 Wedi troi eneidiau'n wyw;
 Ar allorau'r eilun dduwiau
 Y mae barn yn llosgi'n fyw;

cres. Pa hyd, Arglwydd, caiff euogrwydd
 Greu allorau mor ddi-lun?
 Disgyn, disgyn, a marworyn
 O dy ddwyfol dân dy hun.

mf Agor lygaid y paganiaid,
 Ar dueddau Lybia bell;
 Brysia attynt, dyro iddynt
 Wybod am aberthau gwell;
f Ebyrth moliant am faddenant,
 I dylwythau'r anial crâs;
 Gâd i anwar gyrau'r ddaear
 Glywed sŵn efengyl grâs.

Dyfed.

Bryn Offa.

24

D. JENKINS.



EMYN 186 (648).

mp Iesu, Ti wyt ffynon bywyd,
Bywyd dedwydd i barhau;
Pob cysuron is y nefoedd,
Ynot Ti Dy Hun y mae:

cres. Nis gall croes, na gwae, na chystudd,
Wneuthur niwed iddynt hwy
Gafodd nerth i wneyd eu noddfa
Yn Dy ddwyfol farwol glwy'

mf Dyna'r mân na ddaw euogrwydd,
Dyfais Satan fyth, na chwant;
Awel nef sydd yno'n eadw
Pob rhyw ddrygau oll i bant:

f Nid oes rhwad môr, a'i dônau,
Na thymhestloedd o un rhyw,
p Ond rhyw bur dangnefedd hyfryd
Yn archollion f'anwyl Dduw.

mf Dring, fy enaid, i'th orphwysfa,
Uwch y gwynt tymhestlog, oer;
'Maes o swm rhuadau'r llewod,
'Maes o gyrhaedd tonau'r môr;

mp Mi gâf yno, dân bob blinder,
Hyfryd dreulio'm dyddiau i maes,
mf Heb gael briw, na chlais, nae archoll,
Gan ryw neb gelynnion câs.

Brynffin.

25

Trefnwyd a chynganeddwyd gan D.J.



EMYN 613 (690).

mp O! na roddid calon imi,
 F'on galaru am bob bai;
 Nid oes drefn im' gael fy nghadw
f Heb im' wir edifarhau:
 Plant y dagrau a'r ochneidiau
 Welir fry yn dyrfa hardd,
 Yno'n canu am yr ucha
 I'r Gwr fu'n chwysu yn yr ardd.

EMYN 663 (614).

mp Iesu tirion edrych arnaf
 Mewn iselder, poen, a chur;
 Dyro i'm Dy ddwyfol Ysbryd,
 A'i ddyddanwech sanctaidd, pur;
cres. Pan b'ost Ti yn rhoi Dy wyneb,
 Y mae llewyrch yn Dy wedd,
 Sy'n gwasgaru pob ammhenaeth,
 Ac yn trechu ofnau'r bedd.

mp Edrych arnaf mewn tosturi,
 Pan f'o cysur byd yn ffoi;
 Yn nghyfngder profedigaeth
 Atat Ti Dy Hun'r wy'n troi;
p Pan f'o natur wân yn methu,
 Pan f'o t'wll'weh o bob tu,
 Pan ddiffoddo lampau'r ddaear
mf Dyro lewyrch oddi fry.

Aberporth.

26

J. THOMAS, LLANWRTYD.



EMYN 667 (612).

mf Arglwydd Iesu, arwain f'enaïd

At y Graig sydd uwch na mi —

Craig safadwy mewn tymhestloedd

Craig a ddeil yn ngrym y lli';

cres. Llechu wnaf yn Nghraig yr Oesoedd,

Deued diluw, deued tân,

A phan chwal'o'r greadigaeth,

f Craig yr Oesoedd fydd fy nghân!*mf* Pan b'o creigiau'r byd yn rhwygo

Yn rhyferthwy'r farn a ddaw,

Stormydd creulawn arna'i'n euro,

Cedyrn, fyrdd, o'm cylch mewn braw —

cres. Craig yr Oesoedd ddeil pryd hyny,

Yn y dyfroedd, yn y tân!

Draw ar gefnfor tragwyddoldeb

f Craig yr Oesoedd fydd fy nghân.

Cwynfan Prydain. 27

ALAW GYMREIG, Cynganeddiad D. J.



cymerer saib ar y gair "Hwn".

mf Pwy yw Hwn, *p* mor wan ac eiddil,
Plentyn morwyn dlawd ei byd,
A gysgodwyd mewn ystabl,
Gafodd breseb oer yn gryd;
f Arglwydd Ior y greadigaeth
Yn rhodfeydd yr anial yw;
Mae yn Dduw o dragwyddoldeb,
A pharha'n dragwyddol Dduw.

mf Pwy yw Hwn, *p* y gwr gofidus,
Trist ei enaid wrtho'i hun;
Llesg, heb gartref, ac yn wyllo
Dros bechodau aflan ddyn;
f Fe yw'n Duw, a'n Ceidwad grasol,
Uwch y ser, mewn gwlad ddi-glwy,
Sy'n par'toi yn awr drigfanau
Lle na cholli'r deigrin mwy.

mf Pwy yw Hwn, *p* ai chwys yn disgyn
Yn ddefnynau gwaed i lawr?
Pwy yw Hwn sy'n wrthodedig,
O dan wawd a dirmyg mawr?
f Fe yw'n Duw, yr Hwn sy'n tywallt
Gras a hedd i'w saint islaw;
A brenhinol deyrnwialen
Buddugoliaeth yn ei law.

mf Pwy yw Hwn, *p* yn nghrog sy'n marw,
Dan sarhad y byd a'i gur;
Ac a deimla'n mhlith troseddwy'r
Goron ddain, a hoelion dur;
f Fe yw'n Duw, sy'n byw'n dragwydd,
Gyda'i ddisglauer dorf ddi-lith,
Yn y ddinas aur ddi-gwmwl,
Yn teyrnasu'n Frenin byth.

cyf. Dyfed.

Dôl Adar.

28

D. JENKINS.



EMYN 524 (156).

mf Er uchod yw y brynau fry,
 A swm tymhestloedd tywyll, du,
 A'r holl freuddwydion ofnau sy,
 Anturiaf eto' mlaen;
f Mae nerth y nefoedd fry yn fwy
 Na myrdd o'u dychryniadau hwy;
 Mae haeddiant dwyfol farwol glŵy'
 Yn drech na dŵr na than.

f Fy noddfa gadarn, fythol, yw
 Y gair a ddaeth o enau Duw—
 Y ceidw Ef fi byth yn fyw,
 Ffyddlondeb yw Ei râs:
 Mi welaf olion traed Ei saint,
 Dàn y cystuddiau mwya'u maint,
 Yn cadw'u cysur, cadw'u braint,
 Yn wyneb angau glas.

mp Os rhaid cyfarfod ar fy nhaith
 A rhyw gystuddiau mawrion maith,
 A thrallod eto erioed ni ddaeth
 Yn gawod ar fy mhen;
f Caf yfed o'r afonydd elir
 Sy'n tarddu fry yn Salem dir,
 O dan yr orsedd ddwyfol, bur—
 Cysuron nefoedd wen.

Ogmore.

29

Caner yn llyfn.

D. JENKINS, May 9th 1909.



EMYN 393 (932), 833 (933).

mp Dwy aden colomen, pe cawn,
 Mi grwydrwn, mi 'hedwn yn mhell;
 I gopa bryn Nebo mi awn,
 I welod ardaloedd sydd well:
cres. A'm golwg tu arall i'r dŵr,
 Mi dreuliwn fy nyddiau i ben,
 Dàn ganu wrth gofio y Gŵr
p Fu farw dan hoelion ar bren.

mp R'wy'n tynu tuag ochr y dŵr,
 Bron gadael yr anial yn lân;
cres. Mi glywais am gonewest y Gŵr
 A rydiodd yr afon o'm blaen;
mf Fe dreiglodd y maen oedd dan sêl
 Fe g'ododd y Cadarn i'r lân;
cres. Mi 'caraf Ef, deued a ddêl,
 Mae gobaith i'r truan a'r gwan.

Bryntirion.

30

T. MALDWYN PRICE.

yn - o wnaf.

mf Yr oedd|cant namyn un o'r praidd mewn hedd,
 Dan ofal y Bugail o hyd,
 Ond aeth|un ar goll, gan grwydro yn mhell,
 A gadael y gorlan glyd;
f Draw, draw i'r mynyddoedd a'r anial maith,
 Heb Fugail, heb gysgod, na phorfa chwaith.

mf O|Arglwydd, mae genyt dy gant namyn un,
 Ai nid|digon yw hyn i ti?
f Na,|na, medd y Bugail,—Fy nafad hon
 Aeth i grwydro oddiwrthyf fi;
 Er mor|arw yw'r ffordd, i'r anial yr af,
 A cheisio fy nafad yno wnaf.

f Trwy yr|eang fynyddoedd, o'r creigiau serth,
 Daw yr|adsain fel taran gref,—
 "Llawen|hewch, mi gefais fy nafad hon,
 Llawen|hewch holl deulu'r nef:"
 Mae'r|Bugail yn llawen, er colli ei waed,
 Trwy'r|nef mae gorfoledd, y ddafad a gaed.

Nevern.

31

D. JENKINS.



mp Ti wyddost Arglwydd, gŵr y fron gystuddiol
 Sy'n dyfod atat Ti am esmwythad;
 Gofalon heddyw, pryder y dyfodol,
 A'r angen am Dy drugareddau rhad!
p Yn isel iawn, cyfaddef wnawn bob cŵll
 O'th flaen yn rhydd: Ti a'u gwyddost, Arglwydd, oll.


mp Gwyddost a fu: pa fodd ar wylt fynyddoedd
 Bu'r un golledig yn ymgrwydo'n flin;
cres. A'r Bugail da, pa fodd yr aeth, a dygodd
 Hi'n dirion adref ar ei ysgwyddau'i hun:
 Gan drin ei ehlwyfau, esmwythau ei phoen,
mf Ac adfer iddi fywyd, nerth, a hoen.

mf Gan hynny, deuwn, ar Dy dyner alwad,
 A'n beiau a'n blinderau o Dy flaen:
 Gan roddi'n pwys ar rym tragwyddol gariad,
 Ae wedi'n gwisgo a'th gyfiawnder glân;
f Ac awn ymlaen yn nerth Dy Yspryd Di,
 Nes adwaen megis y'n hadweinir ni.

cyf. R. Morris Lewis.

32


BRYCHAN.



1. *mf* Gwyn eu byd y tlodion | yn yr | yspryd : || canys | eiddynt yw | teyrnas |
nefoedd. ||
2. Gwyn eu byd y rhai sydd | yn ga- | laru : || canys | hwy | a ddi- | ddenir. ||
3. Gwyn eu | byd y rhai | addfwyn : || canys hwy a | eti- | feddant y | ddaear. ||
4. Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched | am gyf- | iawnder : ||
canys | hwy | a ddi- | wellir. ||
5. Gwyn eu byd y rhai | trugar- | ogion : || canys | hwy a | gânt dru- | garedd. ||
6. Gwyn eu byd y rhai | pur o | galon : || canys | hwy a | welant | Dduw. ||
7. Gwyn eu byd y | tangnef- | eddwyr : || canys hwy a | elwir yn | blant i | Dduw. ||
8. *f* Gwyn eu byd y rhai a erlidir o | achos cyf- | iawnder : || canys | eiddynt
yw | teyrnas | nefoedd. ||

33

ALCOCK.



1. *mp* Mi a godaf, ac a af at fy nhad, ac a ddy- | wedaf | wrtho, || Fy nhad, pech-
ais yn erbyn y nef, | ac o'th | flaen | dithau; ||
2. Ac mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn | fab i | ti : || gwna fi fel | un o'th |
weision | cyflog. ||
3. *mf* Ac efe a gododd, ac a aeth | at ei | dad. || A phan oedd efe etto yn | mhell
oddiwrtho, ei | dad a'i | canfu | ef, ||
4. Ac a dosturiodd | ac a | redodd, || ac a syrthiodd ar ei | wddf ef, ac | a'i cus- | anodd. ||
5. *mp* A'r mab a ddywedodd wrtho, Fy nhad, pechais yn erbyn y nef, ac | o'th
flaen dithau; || ac nid ydwyf mwy deilwng i'm | galw yn | fab i | ti. ||
6. *mf* A'r tad a ddywedodd wrth ei weision, Dygwech allan y wisg oreu, a gwisgwech
am | dano | ef, || a rhoddweh fodrwy ar ei law, ac es- | gidiau | am ei | draed. ||
7. *f* A dygwech y llo pasgedig, a | lleddwech | ef; || a bwy- | awn, a | byddwn | lawen. ||
8. Canys fy mab hwn oedd farw, ac a aeth yn | fyw dra- | chefn; || ac efe a goll-
esid, | ac a | gaed. ||

34

Awn ymlaen. (Forward, brothers.)

Ymdeithgan syml. (Processional Anthem.)

Welsh Words by "Penfro." Translation by Rev. E. O. JONES, M.A.

Allegro.

D. JENKINS.

mf

Awn y-mlaen mewn ffydd a gob-aith, Ae yn rhwym y cariad byw,
For-ward, bro-thers, be our watchword, For-ward to the bat-tle go,

Sydd yn un - o gwir ga-lon-au Holl ael-od-au eg-lwys Dduw:
Faith and hope and love un-it-ing All in one a - gainst the foe:

Awn y-mlaen fel tyst-ion ffydd-lon, Tra'n mil-wr - io ar y llawr,
For-ward like a migh-ty ar - my, Fight, nor lay your ar-mour down,

I odd-ef-aint a go-gon-iant Croes a chor-on Ies-u mawr.
Suf-fer for the prom-ised glo-ry Bear the cross to win the crown.

This Anthem may be had separately. Solfa 1d. O.N. 2d. of the Composer.

mp

Tyst - ion law - er sydd o'n ham - gyleh—
Many a wit - ness see a - round us

Soft Swell without Ped.

Seint - iau, a Merth - yr - on glân— Nas dych - ryn - wyd
Saints. A - pos - tles, Mar - tyrs brave, Thro' the fire who

f

gân y cledd - yf Ac na chil - ient rhag y tân:
came un - daunt - ed, Faced the sword nor feared the grave.

Dewr - - ion fil - wyr yn yr eg - lwys
 'Neath the ban - ner of God's ar - my

f

f Gt. Diapason coupd. t. Sw.

Ped.

Fu - - - ont dan ei ban - er hi,
 Once - - - for Christ they no - bly wrought

Ped.

Ac And Ae o'u budd - ng - ol - iaeth dyg - - - wyd
 And a her - i - tage of glo - - - ry

Ped. Ped.

Et - - - i fedd-iaeth dêg i ni.
By their tri-umph for us brought.

Et - i fedd-iaeth dêg i ni.
By their tri-umph for us brought.

Unison.

Nerth-a'r eg-lwys fil-wr-iaeth-us Ar-glwydd a dy râs bob awr;
God of hosts in this our war-fare Strengthen us from hour to hour,

Ped.

Bydd yn dar-ian iach-aw-dwr-iaeth Tra par-ha-o'r rhyf-el mawr:
Be our buck-ler of sal-va-tion In the day of Sa-tan's power,

Ar - os meg-is yr add-ew - aist Gyd-a ni hyd ddiw-edd byd,
Lord Thy promise now re-mem-ber To be with us to the end,

A boed cwm-wl Dy o - gon-iant I'n ham-ddiff-yn ni o hyd.
Oh! be near to guide and guard us Near to suc-cour and de-fend.

f

Dyreh-a ar - ni Ar-glwyddgrasol Lew-yrch dy dru-gar - og wedd,
On Thy church pour down in mer-cy All the treasures of Thy grace,

f Full Organ.

Ped.

ad lib.

Nes y del-o'n o - gon-edd-us Ad - re'n un i wlad yr hedd.
Till we come, our war - fare end-ed Home to see Thee face to face.

ad lib.

Ped.

SACRED SONGS.

- THE LORD IS MY SHEPHERD.** (Yr Arglwydd yw fy Mugail.) Soprano or Tenor. D. Jenkins. Price 1s.
- A MOTHER'S LONGING.** (Hiraeth Mam.) Contralto. W. Davies. Price 1s.
- HOLY MAN OF SORROWS.** (Sanctaidd wr gofidus.) Two Keys. D. Emlyn Evans. Price 1s.
- DREAMS OF HOMELAND.** (O fy hen Gymraeg.) Two Keys. D. Emlyn Evans. Price 1s.
- BLESSED IS THE MAN.** Soprano or Tenor.
- WHEN THE POOR AND NEEDY,** from "A Psalm of Life." Both on same copy. Price 1s.
- BENDITHIAIST GOED Y MEUSYDD.** (Alaw Gymreig.) Dan Protheroe, Mus. Doc. (Tor.). Price 6d
- O LLEFARA ADDFWYN IESU.** (Speak, I pray Thee, gentle Jesus.) D. Jenkins. Price 1s.
- Y SEREN DDYDD.** (The Day Star.) D. Protheroe. Price 1s.
- HOME FOR EVER.** (Gyda'r Iesu.) Norwegian Melody. Price 6d.
- PEIDIWCH GOFYN I MI GANU.** (Ask me not to join your singing.) D. Jenkins. Price 1s.
- DAGRAU'R IESU.** (Christ's Compassion.) Welsh Melody. Price 6d.
- DELW'R IESU.** (The Image of the Master.) Price 6d
- CONCWEST Y GROES.** (Triumph of the Cross.) Welsh Melody. Price 6d.
- FEL MYNO DUW.** (All as God wills.) D. Jenkins. Price 1s.
- PLENTYN DUW.** (The Child of God.) D. Jenkins. Price 1s.
- CRIST YN ACHUB.** (Jesus, the Christ.) Welsh Melody. Price 6d.
- BLODAU PARADWYS.** (The Flowers of Paradise.) Soprano and Tenor. R. S. Hughes. Price 1s.

TEMPERANCE PIECES.

1. **CYDGAN DDIRWESTOL.** Temperance Chorus—"Awn a meddianwn y wlad" (We'll march and possess), 2d. 6d.
2. **SONG AND CHORUS.** (Yn uwch, uwch, elled Dirwest wen—We are a bright-eyed happy band.) By Tom Price, Merthyr. Sol-fa and Old Notation on the same copy, 6d.
3. **I'R MORFA GWYN.** Chorus. From Rosina, 1d. 3d.
4. **MAE'R FANER I FYNY.** Chorus. From Rosina, 1d. 3d.
5. **YN MYD Y CYFNEWID.** Male Voice Chorus. From Rosina, 1d. 3d.
6. **ARFOGION DIRWEST.** Chorus. From Rosina, 1d. 3d.
7. **FYDDINOEDD DEWRION DIRWEST.** J. Thomas, Llanwrtyd, 1d. 4d.
8. **CODWN YN LLUOEDD.** D. Jenkins, 6d.

DARNAU AR GYFER Y NADOLIG.

- CAROL NADOLIG.** Dr. Gauntlett, 1d. 3d.
- PLYGEINGAN NADOLIG.** D. Jenkins, 1d. 2d.
- ANTHEM NADOLIG.** R. S. Hughes, 1d. 2d.
- SEINIRMAWL GAN ENGYL GLAN.** Isalaw, 1d. 2d.

DARNAU AS GYFER Y PASG.

- YR ADGYFODIAD.** (The Resurrection.) Mrs. Watts Hughes, 1d. 2d.
- HWY DDYGASANT FY ARGLWDD YMAITH.** (They have taken away my Lord.) Dan Protheroe, Mus. Doc., 1d. 3d.

MALE VOICE CHORUSES.

1.	CYDGAN Y MEDELWYR. (The Reaper's Chorus),	2d.	4d.
2.	CYDGAN Y CHWARELWYR. (The Quarrymen's Chorus),	2d.	4d.
3.	RHYFELGAN DDIRWESTOL. (Temperance War Song),	2d.	4d.
4.	CYDGAN Y BUGEILIAID. (The Shepherd's Chorus),	2d.	4d.
5.	Scena—Y GŦF. (The Blacksmith),	2d.	4d.
6.	WYR PHILISTIA. (Valiant Warriors). From David and Goliath. Scored for full Orchestra,	2d.	6d.
7.	MEIB Y DON. (The Sons of the Wave),	2d.	4d.
8.	HWYRDDYDD HAF. (Summer Night.) T. Davies,	1d.	2d.
9.	BLOW BOYS, BLOW. From The Village Children,	1d.	2d.
10.	THE WAR HORSE. D. Jenkins. Scored for full Orchestra,	2d.	4d.
11.	LLONGAU MADOC. (Madoc's Fleet.) D. Jenkins,	2d.	4d.
12.	MAER HAF YN D'OD. (The Summer Comes.) D. Parry, Llanrwst,	2d.	4d.
13.	HAIL, DAVID, HAIL. (Dewi, Bydd Wych.) From Dewi Sant. Scored for full Orchestra,	2d.	4d.
14.	FATHER, WE GO. (Dad cychwyn wnawn.) Welsh Melody. From Dewi Sant,	1d.	2d.
15.	FYDDINOEDD DEWRION DIRWEST. (Arise, ye hosts of Tem- perance.) John Thomas, Llanwrtyd,	1d.	4d.
16.	TEYRNGED CARIAD. (Lovely Maidens.) Madrigal. D. Pughe Evans,	2d.	4d.
17.	GYRWCH WYNTOEDD. (Storm Winds Driving.) D. Jenkins. Scored for full Orchestra,	3d.	6d.
18.	Y NOS! Y WAWR Y DYDD. (Night! Dawn! Day!) D. Jenkins,	3d.	6d.
19.	NOSGAN. (Serenade.) Gwilym Gwent,	2d.	4d.
20.	ROMAN SOLDIERS. (Y Milwyr Rhufeinig.) D. Protheroe, Mus. Doc.,	2d.	4d.
21.	O TYR D I FYW. (Come live with me.) R. Bryan,	2d.	4d.
22.	HEIGH MY HEARTS. Sailor's Chorus, from the Opera, The Enchanted Isle. D. Jenkins,	2d.	4d.
23.	MWYNDER Y MEUSYDD. (The Wood-Cutters.) Dan Protheroe, Mus. Doc.,	2d.	4d.
24.	Y DWYFOL FAB. (The Son of God.) D. Jenkins. Scored for full Orchestra,	2d.	6d.
25.	SER Y BOREU. (The Morning Star.) Dr. Protheroe,	1d.	3d.
26.	MEIBION GWALIA. (The Sons of Gwallia.) D. Jenkins,	2d.	6d.
27.	LEAD, KINDLY LIGHT. (Oleuni Claer.) Dr. Protheroe,	1d.	3d.
28.	GOSTEG FOR. (Peace, be still.) D. Jenkins,	1d.	4d.
29.	CODIAD YR HAUL. (The Rising of the Sun.) Welsh Melody,	1d.	4d.
30.	CARES HINON. (Fairest Maiden.) Arranged from Gluck,	1d.	4d.
31.	GYMRY RHOWCH GAN. (Britons, Rejoice.) From Dewi Sant,	2d.	4d.